| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Ionawr 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Hugh Evans a'r Cynghorydd Huw L Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tom Booty**<br>**Rheolwr Datblygiad Economaidd a Busnes** |
| **Teitl:** | **Cynlluniau Tref ac Ardal** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r camau a gymerwyd ers yr Adolygiad o Gynlluniau Tref ac Ardal, ac yn amlinellu'r ffordd ymlaen.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cwblhawyd adolygiad o Gynlluniau Tref ac Ardal ym mis Mehefin 2014. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu pa gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r adolygiad, yn argymell camau gweithredu newydd ac yn darparu diweddariad i'r Cabinet ar y sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer Cynlluniau Tref ac Ardal.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhellion ar gyfer y Cabinet yw:-

1. Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cynlluniau Tref ac Ardal;
2. Cymeradwyo asesiad Grŵp Cefnogwyr Cynlluniau Tref ac Ardal o brosiectau a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Cabinet ond sydd heb eu dechrau eto;
3. Dad-ymrwymo'r dyraniad cyllid i'r prosiectau a aseswyd fel rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf;
4. Cymeradwyo paratoi rhestr ddiwygiedig o brosiectau blaenoriaeth ar gyfer y Cynlluniau Tref ac Ardal a'r broses arfaethedig ar gyfer dyrannu arian i'r prosiectau yma.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### 4.1 Datganiad Polisi Cynlluniau Tref ac Ardal

Ym mis Chwefror a mis Mawrth 2014, cymeradwyodd y Cabinet y swp olaf o Gynlluniau Tref ac Ardal a ehangwyd. Codwyd pryderon ynghylch darpariaeth a chyllido'r Cynlluniau a chytunodd y Cabinet y dylid cynnal adolygiad. Cafodd yr adolygiad ei gwblhau ym mis Mehefin 2014.

Roedd yr adolygiad yn dod i'r casgliad, er bod y cysyniad o ddefnyddio Cynlluniau Tref ac Ardal i ddod â'r Cyngor 'yn agosach at y gymuned' yn gadarn ac yn caniatáu i'r Cyngor i gael dealltwriaeth o flaenoriaethau ar lefel leol, roedd diffyg eglurder ynghylch bwriadau polisi trosfwaol y Cynlluniau Tref ac Ardal a diffyg cysondeb o ran sut yr oeddent wedi eu datblygu ac yn cael eu cyflawni. I egluro bwriad y polisi mae Datganiad Polisi wedi ei gynhyrchu sy'n nodi'r amcanion polisi craidd, ynghyd ag egwyddorion allweddol

cysylltiedig. Mae'r Datganiad Polisi ynghlwm wrth Atodiad 1 ac argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo'r ddogfen hon.

**4.2 Asesiad o brosiectau Cynlluniau Tref ac Ardal presennol gydag arian wedi ei ddyrannu**

Daeth yr Adolygiad hefyd i'r casgliad nad yw’r Cynlluniau Tref ac Ardal fel y'i hysgrifennwyd ar hyn o bryd yn ddigon strategol, nid ydynt yn darparu gwybodaeth glir ar fuddion a ragwelir ac nid ydynt yn glir sut y bydd effaith yn cael ei fesur. I fynd i’r afael â hyn, cynhaliwyd adolygiad o brosiectau Cynlluniau Tref ac Ardal a gytunwyd i’w hariannu a chanfuwyd bod:

- 36 o brosiectau naill ai wedi eu cwblhau neu ar y gweill;
- 18 o brosiectau eraill heb eu dechrau;
- Rhai Aelodau lleol â dyheadau ar gyfer prosiectau ychwanegol y dylid dyrannu cyllid iddynt.

Mae manylion y prosiectau ym mhob categori yn cael eu dangos yn Atodiad 2.

Yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2014, cytunodd y Grŵp Cefnogwyr Cynlluniau Tref ac Ardal i ailasesu’r prosiectau hynny a ddyrannwyd cyllid ar eu cyfer, ond nad oeddent wedi dechrau eto. Datblygwyd set o feini prawf asesu a matrics sgorio (gweler Atodiad 3). Ar 17 Hydref 2014 cynhaliwyd gweithdy Asesiad Cefnogwyr Cynlluniau Tref ac fe gafodd y meini prawf eu cymhwyso i bob prosiect perthnasol. Canlyniadau'r gweithdy oedd:

- Aseswyd 4 prosiect fel rhai sydd wedi dechrau yn barod ac argymhellwyd eu bod yn parhau
- Aseswyd 7 prosiect fel rhai boddhaol ac sy’n cwrdd â'r meini prawf asesu ac argymhellwyd eu bod yn bwrw ymlaen
- Aseswyd 5 prosiect fel rhai boddhaol ac sy’n cwrdd â'r meini prawf asesu ac argymhellwyd eu bod yn bwrw ymlaen
- Tynnwyd 2 brosiect yn ôl

Mae'r canlyniadau llawn ynghlwm wrth Atodiad 4, ac argymhellir bod y Cabinet yn dilysu’r asesiad hwn.

Gwerth cronnus y 5 prosiect a aseswyd fel rhai nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf, a’r 2 brosiect a dynnwyd yn ôl, yw £175,000. Yn ogystal, ac fel y nodir ar ddiwedd Atodiad 4, mae un prosiect gyda dyraniad o £40,000 a argymhellwyd y dylid ei ddatblygu yn dilyn y gweithdy ar 17 Hydref 2014 wedi bod yn aflwyddiannus yn ei gais am grant. Felly, cyfanswm y dad-ymrwymiad yw £215,000. Argymhellir y dylai’r Cabinet gymeradwyo'r dad-ymrwymiad ac ychwanegu’r swm at y balans heb ei ddyrannu ar gyfer Cynlluniau Tref ac Ardal.

**4.3 - Sefyllfa Gyllido**

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r sefyllfa ariannol bresennol yng nghyllideb y Cynlluniau Tref ac Ardal a'r effaith y caiff y dad-ymrwymiadau arfaethedig ar y balans heb ei ddyrannu.

**Tabl 1: Y Gyllideb bresennol ar gyfer y Cynlluniau Tref**

| | |
|---|---:|
| Cyfanswm y dyraniad ariannol i Gynlluniau Tref ac Ardal hyd at 31 Mawrth 2015 | £1,939,000 |
| 26 i 29 Tachwedd 2013 | £1,332,170 |
| Balans heb ei ddyrannu hyd at 1 Tachwedd 2014 | £606,830 |
| Dad-ymrwymiadau Arfaethedig | £215,000 |

| | |
|---|---|
| Dyraniadau yn dilyn dad-ymrwymiadau | **£1,117,170** |
| Balans heb ei ddyrannu yn dilyn dad-ymrwymiadau | **£821,830** |

O'r £1,117,170 a ddyrannwyd, mae £348,887 wedi ei wario hyd at 1 Tachwedd 2014.

### 4.4 – Dyraniadau yn y Dyfodol

O ran y balans heb ei ddyrannu, mae gwaith wedi dechrau ar weithio gyda'r Cefnogwyr Cynlluniau Tref a'r Grwpiau Ardal yr Aelodau i gadarnhau prosiectau i'w datblygu rhwng rŵan a diwedd tymor y Cyngor (mis Mawrth 2017 neu 2018 yn dibynnu ar uno). Y broses arfaethedig ar gyfer symud hyn yn ei flaen yw:

1. Edrych ar y Cynlluniau Tref ac Ardal presennol i ystyried pa brosiectau o fewn y Cynlluniau y gellid eu hystyried ar gyfer eu hariannu;
2. ystyried a oes unrhyw brosiect "newydd" heb ei gynnwys yn y cynlluniau (gan gofio bod y gwaith ar rai cynlluniau wedi ei ddechrau 3 blynedd yn ôl a bod yr amgylcheddau a'r cyfleoedd wedi newid o bosibl ers hynny);
3. bydd y rhestr gyfunol yn sgil y camau gweithredu uchod yn cael ei hystyried gan y Grŵp Ardal yr Aelodau priodol er mwyn eu cymeradwyo;
4. Unwaith y bydd Grwpiau Ardal yr Aelodau wedi cymeradwyo'r prosiectau, bydd y prosiectau posibl yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Cefnogwyr Cynlluniau Tref a byddant yn destun yr un meini prawf a'r broses asesu a nodir yn adran 4.2 o'r adroddiad hwn;
5. Bydd y rhestr o brosiectau blaenoriaeth newydd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ei hystyried a'i chymeradwyo.

Yn ogystal, bydd disgwyl i'r Grŵp Cefnogwyr Cynlluniau Tref sicrhau bod yr arian yn cael ei ledaenu ar draws y sir. Argymhellir y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r dull arfaethedig hwn i baratoi rhestr ddiwygiedig o brosiectau blaenoriaeth y Cynlluniau Tref ac Ardal a chymeradwyo'r broses arfaethedig ar gyfer dyrannu arian i'r prosiectau hyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi bod ag amcan ers tro i fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda, yn agos at ei gymunedau. Mae bod yn agosach at y Gymuned wedi ei nodi fel dyhead cyffredinol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mewn adolygiad o'r amcan Agosach at y Gymuned yn 2013, nodwyd Cynlluniau Tref ac Ardal fel un o'r cydrannau ar gyfer bwrw ymlaen â'r amcan hwn, gan ganolbwyntio ar fapio anghenion a dyheadau cymunedol lleol, ac adeiladu gallu cymunedol.

Mae'r Cynllun Corfforaethol 2012/17 yn nodi agenda uchelgeisiol ar gyfer newid ar draws ystod o feysydd blaenoriaeth. Mae Datblygu'r Economi Leol wedi'i nodi fel un o'n blaenoriaethau hyn. Ystyrir bod Trefi a Chymunedau Llewyrchus yn elfen bwysig o economi leol iach.

Yn 2011, datblygodd Cyngor Sir Ddinbych ynghyd â'i bartneriaid allweddol y Cynllun Mawr cyntaf ar gyfer Sir Ddinbych. Nododd y Cynllun Mawr weledigaeth hirdymor ar gyfer Sir Ddinbych a nododd cyfres gynhwysfawr o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag elfennau o'r weledigaeth honno. Mae'r Cynllun Mawr wedi ei adolygu ac mae Cynllun Lles newydd â mwy o ffocws wedi ei gynhyrchu. Mae'r Cynllun newydd yn canolbwyntio ar gefnogi pobl a chymunedau i fod yn fwy annibynnol a gwydn, a datblygu'r amgylchedd cywir lle gall pobl gynnal eu lles unigol a chymunedol.

Mae gan Gynlluniau Tref ac Ardal gyfraniad pwysig i'w wneud at y 3 amcan polisi hwn, ac felly yn cael eu hystyried yn systemau pwysig ar gyfer:

- **Dod â'r Cyngor yn Agosach at ei Gymunedau**
- **Adeiladu Trefi a Chymunedau Ffyniannus**
- **Cefnogi Datblygiad Cymunedau Annibynnol a Gwydn**

**6.**

Mae'r sefyllfa ariannu bresennol wedi ei nodi'n adran 4.3, ond mae'r tabl isod yn cynnwys dadansoddiad lleol ynghyd â manylion o'r arian cyfatebol posibl. Mae'r tabl isod yn tybio bod y dad-ymrwymiadau ariannol a nodir yn yr adroddiad hwn yn cael eu cymeradwyo.

**Tabl 2: Gwariant hyd yma ac Arian Cyfatebol**

| Tref: | Dyraniad hyd yma ar gyfer y Cynllun Tref | Gwariant hyd yma ar y Cynllun Tref | Balans Cynllun Tref | Arian Cyfatebol hyd yma | Arian Cyfatebol a Ragwelir | Cyfanswm Arian Cyfatebol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prestatyn** | £245,000 | £21,695 | £223,305 | £0 | £7,000 | £7,000 |
| **Llanelwy** | £77,800 | £58,420 | £19,380 | £0 | £283,500 | £283,500 |
| **Rhuddlan** | £34,000 | £16,925 | £17,075 | £700 | £21,300 | £22,000 |
| **Dinbych** | £137,800 | £67,933 | £69,867 | £0 | £561,200 | £561,200 |
| **Rhuthun** | £169,070 | £74,920 | £94,150 | £41,420 | £187,000 | £228,420 |
| **Corwen** | £55,000 | £54,001 | £999 | £18,426 | £52,500 | £70,926 |
| **Llangollen** | £98,500 | £50,743 | £47,757 | £3,000 | £501,000 | £504,000 |
| **Y Rhyl** | £300,000 | £4,250 | £295,750 | £0 | £200,000 | £200,000 |
| **Bodelwyddan** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **CYFANSWM** | **£1,117,170** | **£348,887** | **£768,283** | **£63,546** | **£1,813,500** | **£1,877,046** |

Er bod y tabl uchod yn manylu ar y sefyllfa ariannol o ran cyllideb benodedig y Cynlluniau Tref ac Ardal, dylai'r cynlluniau hefyd fod yn ddogfen allweddol wrth ddylanwadu ar weithgaredd a blaenoriaethau gwasanaethau Sir Ddinbych.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad?**

Bydd Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb unigol ar gyfer prosiectau neu weithgareddau penodol a nodir yn y Cynlluniau Tref ac Ardal yn cael eu datblygu ar yr adeg briodol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Datblygir Cynlluniau Tref ac Ardal mewn partneriaeth â'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol. Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth CSDd, sefydliadau trydydd sector (drwy CGGSDd), trigolion a'r gymuned fusnes (drwy gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb a drwy arolygon ar y we).

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r gwariant bwriedig wedi'i gynnwys o fewn y dyraniadau cyllid presennol. Ni ddylai unrhyw brosiect cyfalaf ddechrau heb werthusiad priodol a dylai goblygiadau refeniw unrhyw brosiect gael eu cynnal o fewn y cyllidebau presennol.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae risg y bydd datblygu'r cynlluniau'n cynyddu disgwyliadau ac y gallai methiant i gyflawni niweidio enw da'r Cyngor ymysg Cynghorau Tref a Chymuned a budd-ddeiliaid

eraill. Bydd hyn yn cael ei reoli drwy gyfranogiad a chyfathrebu parhaus gyda budd-ddeiliaid perthnasol ynglŷn â’r broses o ddatblygu a chyflwyno’r cynlluniau.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000
Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972